Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Deddf Is-Ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

## Canllawiau Statudol Drafft i Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymr

Mawrth 2015

ISBN digidol 978 1 4734 2912 3
© Hawlfraint y Goron 2015
WG24362

# DEDDF IS-DDEDDFAU LLYWODRAETH LEOL (CYMRU) 2012

## Canllawiau Statudol i Awdurdodau Lleol, Cynghorau Cymuned a Thref ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru a Cyfoeth Naturiol Cymru

## Cynnwys

**Rhan 1 – Cyflwyniad**

Trosolwg
Diffiniadau

**Rhan 2 – Is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth ac Atal Niwsansau**

Is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth ac Atal Niwsansau

**Rhan 3 – Gwneud a Dirymu Is-ddeddfau**

Y gwahanol weithdrefnau ar gyfer gwneud is-ddeddfau
Ymgynghori
Cyhoeddi bwriad awdurdod i wneud is-ddeddf, neu i gyflwyno is-ddeddf i gael ei chadarnhau
Gwneud yr is-ddeddf a dyddiad dod i rym
Cyflwyno'r is-ddeddf i gael ei chadarnhau
Cyhoeddi is-ddeddf pan fydd wedi'i gwneud neu ei chadarnhau
Dirymu Is-ddeddfau
Tystiolaeth o Is-ddeddfau
Is-ddeddfau Model

**Rhan 4 – Gorfodi Is-ddeddfau**

Egwyddorion Cyffredinol
Tramgwyddau yn erbyn Is-ddeddfau – Dirwyon
Is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth ac Atal Niwsansau – Pwerau ymafael etc.
Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol
Swm cosb benodedig
Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig
Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

**Rhan 5 – Cynghorau Cymuned**

Canllawiau i gynghorau cymuned ynghylch hysbysiadau cosb benodedig

**Atodiad A – Deddfiadau yn Rhan 1 a Rhan 2 o Atodlen 1** (yn gywir pan gyhoeddwyd yr ymgynghoriad)

**Atodiad B – Gweithdrefnau Gwneud Is-ddeddfau – Siart Llif**

**Atodiad C – Gwybodaeth am Ddarparwyr Hyfforddiant**

# Rhan 1

# Cyflwyniad

## Trosolwg

1.1. Deddf gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yw Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 ('Deddf 2012') i wneud darpariaeth ar gyfer:

a) awdurdodau deddfu i fod yn gallu gwneud is-ddeddfau;
b) y weithdrefn i'w dilyn wrth wneud yr is-ddeddfau hynny;
c) dirymu is-ddeddfau sy'n bod eisoes; a
d) gorfodi is-ddeddfau.

1.2. Mae Deddf 2012 yn symleiddio'r gweithdrefnau ar gyfer gwneud a gorfodi is-ddeddfau yng Nghymru.

1.3. Deddf leol a wneir gan gorff statudol o dan bŵer galluogi sydd wedi'i gynnwys mewn Deddf Seneddol neu Fesur neu Ddeddf gan y Cynulliad Cenedlaethol yw is-ddeddf.

1.4. Mae Deddf 2012 yn disodli ac yn gwella'r broses gyfredol ar gyfer cadarnhau is-ddeddfau gan Weinidogion Cymru, lle na nodir unrhyw weithdrefn gadarnhau arall mewn pŵer galluogi neilltuol ar gyfer is-ddeddfau. Mae hefyd yn cyflwyno gweithdrefn amgen sy'n tynnu ymaith yr angen i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau penodedig.

1.5. O ran gorfodi is-ddeddfau, mae ffordd arall, fwy uniongyrchol, o orfodi ar gael yn awr trwy gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig. Gall hysbysiadau cosb benodedig fod yn ffordd effeithiol a gweladwy i awdurdodau ymateb i dramgwyddau lefel isel. Mae hyn yn sicrhau hefyd bod is-ddeddfau penodedig yn cael eu gorfodi fel yr ymdrinnir â thramgwyddau niwsans eraill o lefel debyg y rhoddir hysbysiadau cosb benodedig amdanynt yng Nghymru ar hyn o bryd.

1.6. Wrth wneud hynny, mae Deddf 2012 hefyd yn addasu a chydgrynhoi darpariaethau cyfredol ar gyfer is-ddeddfau a geir yn adrannau 235 i 238 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ('Deddf 1972').

1.7. Cafodd Deddf 2012 Gydsyniad Brenhinol ar 29 Tachwedd 2012.

1.8. Cyhoeddir y canllawiau statudol hyn gan Weinidogion Cymru gan arfer eu pwerau o dan adran 18 o Ddeddf 2012. Yn rhinwedd adran 18(2) o Ddeddf 2012, mae'n rhaid i awdurdodau roi sylw i'r canllawiau hyn wrth wneud neu orfodi is-ddeddfau.

1.9. At ddibenion y canllawiau hyn, defnyddir y testun a ganlyn:

- mae **awdurdod** yn cyfeirio at awdurdod deddfu;
- mae **awdurdod lleol** yn cyfeirio at gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol;
- mae **cyngor cymuned** yn cyfeirio at gyngor cymuned neu gyngor tref;

- mae **Deddf 1972** yn cyfeirio at Ddeddf Llywodraeth Leol 1972;
- mae **Deddf 2012** yn cyfeirio at Ddeddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012;
- mae **HCB** yn cyfeirio at Hysbysiad Cosb Benodedig;
- mae **Swyddog Priodol** yn cyfeirio at swyddog yr awdurdod perthnasol a awdurdodwyd yn briodol i gyflawni swyddogaethau penodol. Caiff awdurdodau lleol, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned benodi swyddogion priodol at ddibenion is-ddeddfau.

## Ystyr 'Awdurdod Deddfu'

### Cyflwyniad

1.10. Mae Deddf 2012 yn defnyddio'r term 'awdurdod deddfu' wrth gyfeirio at y cyrff cyhoeddus yng Nghymru a gaiff ddefnyddio darpariaethau Deddf 2012 i wneud a gorfodi is-ddeddfau.

### Darpariaethau Deddf 2012

1.11. Mae adran 3 o Ddeddf 2012 yn diffinio awdurdod deddfu fel:

a) cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol yng Nghymru;
b) cyngor cymuned;
c) awdurdod Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
d) Cyngor Cefn Gwlad Cymru[1].

[1] Sylwch: Ers 1 Ebrill 2013, mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn rhan o gorff newydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, ac nid yw'n cadw'i hunaniaeth ei hunan. Bwriedir diwygio Deddf 2012 i roi cyfeiriadau at Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle cyfeiriadau at Gyngor Cefn Gwlad Cymru

## Rhan 2

## Is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth

## Is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac atal niwsansau

### Darpariaethau Deddf 2012

2.1. Mae adran 2 o Ddeddf 2012 yn ailddatgan darpariaethau adran 235 o Ddeddf 1972 sy’n galluogi cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru i wneud is-ddeddfau:

a) ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth y cyfan neu unrhyw ran o’i ardal;
b) ar gyfer rhwystro ac atal niwsansau yn ei ardal.

2.2. Ni ellir gwneud is-ddeddfau o dan y pŵer hwn os gwneir, neu os gellid gwneud, darpariaeth at y diben dan sylw o dan ddeddfiad arall, yn cynnwys is-ddeddfwriaeth.

2.3. Mae paragraff 2.9 isod yn rhoi enghreifftiau o faterion y gellir ymdrin â hwy o dan y pŵer i wneud is-ddeddfau ar gyfer rheolaeth dda a llywodraeth ac ar gyfer rhwystro ac atal niwsansau.

### Canllawiau Statudol

2.4. Dim ond cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol a gaiff ddefnyddio’r pŵer hwn i wneud is-ddeddfau ac **nid yw** ar gael i awdurdodau deddfu eraill.

2.5. Ni ddylid defnyddio’r pwerau hyn i wneud is-ddeddfau os oes deddfwriaeth eisoes ar gael i fynd i’r afael â’r broblem, nac ar gyfer unrhyw fater os oes pŵer arall i wneud is-ddeddfau ar gael. Cyn gwneud is-ddeddfau, dylai awdurdodau lleol ymgynghori â’u hadran gyfreithiol ynghylch unrhyw ddeddfwriaeth gyffredinol sydd eisoes ar gael.

2.6. Mae Deddf Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 yn enghraifft o ddeddfwriaeth sydd eisoes ar gael ac a all fod yn addas i fynd i’r afael â phroblemau annifyrrwch a niwsans i drigolion lleol. Mae hon yn rhoi nifer o bwerau i awdurdodau i reoli niwsansau fel graffiti, sŵn a rheoli cŵn/baw cŵn. Mae canllawiau ar wahân i’w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru. http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/cleanneighbour/?lang=cy

2.7. Nid yw llawer o’r gweithgareddau sy’n cael eu rheoleiddio gan is-ddeddfau a wneir o dan y pŵer i wneud is-ddeddfau “rheolaeth dda a llywodraeth” yn beryglus nac yn niwsans ynddynt eu hunain ond gallant fod yn beryglus neu’n niwsans mewn rhai ardaloedd neu o’u gwneud mewn ffordd beryglus neu annifyr. Er enghraifft, gallai rhwystr neu

niwsans a achosir gan bobl sy'n towtio am fusnes ar gyfer gwasanaethau neu'n stopio pobl ar y stryd i gynnal arolygon ymchwil i'r farchnad ddod yn broblem o'r fath, yn dibynnu ar yr amgylchiadau unigol. Felly, nid oes gan awdurdodau lleol bŵer **cyffredinol** o dan adran 2 i wneud is-ddeddfau i wahardd gweithgareddau fel sglefrfyrddio neu reidio **trwy eu hardal gyfan**. Fodd bynnag, gall fod yn briodol gwahardd y gweithgareddau hyn **mewn rhai mannau** lle maent yn achosi perygl neu niwsans neilltuol, neu **reoleiddio** y modd y caniateir eu cynnal.

2.8. Nid oes angen cadarnhau is-ddeddfau a wneir o dan y pŵer hwn. Yn hyn o beth, mae'r weithdrefn a nodir yn adran 6 o Ddeddf 2012 a'r canllawiau statudol a nodir yn y rhan o'r canllawiau hyn o dan y pennawd "Gwneud a Dirymu Is-ddeddfau" yn berthnasol. Wrth wneud is-ddeddfau o dan y pŵer hwn, mae'n rhaid i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol roi sylw i'r canllawiau statudol perthnasol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 18 o Ddeddf 2012.

### Enghreifftiau o is-ddeddfau

2.9. Isod, ceir enghreifftiau o faterion y gellir ymdrin â hwy gan ddefnyddio is-ddeddfau a wnaed o dan y pŵer yn adran 235 o Ddeddf 1972, a ailddatgenir gan adran 2 o Ddeddf 2012:

- Reidio ar ymylon ffyrdd a lleiniau ochr ffordd;
- Cerbydau ar ymylon ffyrdd a lleiniau ochr ffordd;
- Gemau peryglus ger priffyrdd;
- Chwarae gemau ar briffyrdd gan beri annifyrrwch i drigolion lleol;
- Towtio;
- Gwneud dŵr;
- Ymyrryd ag offer rhybuddio ar y ffordd;
- Ymyrryd ag offer achub bywyd;
- Dringo ar bontydd a hongian oddi arnynt.

## Is-ddeddfau model ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth

2.10. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu is-ddeddfau model ar gyfer nifer o Ddeddfau galluogi i helpu awdurdodau i lunio is-ddeddfau. Gellir mynd at is-ddeddfau model ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth o wefan Llywodraeth Cymru. Nid yw'r rhain yn rhagnodol a gellir eu mabwysiadu'n llawn neu'n rhannol. Mae canllawiau sy'n benodol ar gyfer pob model ar gael hefyd.

2.11. Mae rhagor o wybodaeth am is-ddeddfau model Llywodraeth Cymru i'w chael yn Rhan 3 o'r canllawiau hyn (gweler paragraff 3.73).

## Is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth ac Atal Niwsansau – Pwerau ymafael etc.

### Darpariaethau Deddf 2012

2.12 Mae adran 11 o Ddeddf 2012 yn ailddatgan adran 237ZA o Ddeddf 1972.

2.13 Mae Deddf 2012 yn darparu bod awdurdod lleol yn cael cynnwys darpariaeth ar gyfer y materion a ganlyn neu mewn cysylltiad â hwy wrth wneud is-ddeddf ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth ac Atal Niwsansau:

a) ymafael mewn unrhyw eiddo a ddefnyddir mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r is-ddeddf, a chadw'r eiddo hwnnw; a
b) fforffedu unrhyw eiddo o'r fath pan ddyfernir rhywun yn euog o beidio â chydymffurfio â'r is-ddeddf neu ei thorri.

### Canllawiau

2.14 Gellir cynnwys pwerau ymafael, cadw a fforffedu mewn is-ddeddfau ar gyfer Rheolaeth Dda a Llywodraeth a wneir o dan adran 2 o Ddeddf 2012. Gall y pwerau hyn gryfhau'r gwaith o orfodi'r is-ddeddfau hynny.

2.15 Bydd pwerau ymafael, cadw a fforffedu yn galluogi awdurdodau lleol yng Nghymru i warchod eu cymunedau yn well.

2.16 **Nid** yw'r pŵer i gynnwys ymafael, cadw a fforffedu yn cael ei roi i gynghorau cymuned na thref, awdurdodau Parciau Cenedlaethol na Cyfoeth Naturiol Cymru – cyrff nad ydynt yn cael gwneud is-ddeddfau Rheolaeth Dda a Llywodraeth. Felly, nid yw'r pwerau ymafael, cadw a fforffedu sydd wedi'u cynnwys yn adran 11 o Ddeddf 2012 yn berthnasol i'r cyrff hyn.

2.17 Mater i'r awdurdodau lleol fydd penderfynu a ydynt am gynnwys y pwerau yn eu his-ddeddfau perthnasol. Bydd angen i awdurdodau lleol ymgynghori â'u cymunedau wrth ystyried cynnwys pwerau i ymafael mewn eiddo a'i gadw, er mwyn sicrhau eu bod yn gymesur ac er mwyn ceisio sicrhau na thresmasir ar hawliau dynol.

2.18 Mae gan awdurdodau lleol bwerau ymafael eisoes er mwyn gorfodi rhai is-ddeddfau masnachu ac felly maent yn gyfarwydd â defnyddio pŵer o'r fath.

# Rhan 3

# Gwneud a Dirymu Is-ddeddfau

## Y gweithdrefnau sydd ar gael ar gyfer gwneud is-ddeddfau

### Cyflwyniad

3.1. Yn rhinwedd Deddf 2012, mae is-ddeddfau yng Nghymru yn ddarostyngedig i un o ddwy weithdrefn. Mae Deddf 2012 yn cyflwyno gweithdrefn newydd sy'n tynnu ymaith yr angen i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddfau a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012. Yn ogystal, mae Deddf 2012 yn disodli ac yn addasu'r broses o dan Ddeddf 1972 ar gyfer is-ddeddfau y mae angen i Weinidogion Cymru eu cadarnhau (gweler adran 7 o Ddeddf 2012 a'r rhan berthnasol o'r canllawiau hyn a nodir isod). Ar wahân i'r angen am gadarnhad sy'n berthnasol i rai is-ddeddfau, mae'r broses yn debyg iawn o dan y ddwy weithdrefn. Mae siart llif yn dangos y broses yn Atodiad B.

### Darpariaethau Deddf 2012

<u>Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol</u>

3.2. Mae adran 6 o Ddeddf 2012 yn darparu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gadarnhau unrhyw is-ddeddf a wneir gan awdurdod o dan ddeddfiad a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012. Mae adran 6 o Ddeddf 2012 yn rhagnodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddf nad yw'n ofynnol ei chadarnhau.

3.3. Mae tair rhan i'r weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau nad yw'n ofynnol eu cadarnhau:

a) Cyhoeddi 'datganiad ysgrifenedig cychwynnol' ac ymgynghori â phersonau sydd â diddordeb yn y mater;
b) Cyhoeddi penderfyniad yr awdurdod ac is-ddeddfau drafft, os yw'n briodol; ac
c) Yr is-ddeddfau'n cael eu gwneud ac yn dod yn effeithiol.

3.4. Yn ogystal, mae adran 6 yn darparu nad yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddf a wneir gan awdurdod i ddiwygio neu ddirymu is-ddeddf a wnaed yn flaenorol o dan ddeddfiad a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012, a'i bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a ragnodir yn adran 6.

3.5. Mae'r deddfiadau sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 1 wrth i'r canllawiau hyn gael eu hysgrifennu i'w gweld yn Atodiad A.

3.6. O dan Adran 9 o Ddeddf 2012, caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddiwygio Rhan 1 o Atodlen 1 drwy ychwanegu at y rhestr o ddeddfiadau neu dynnu oddi arni, neu drwy ddiwygio'r math o awdurdod a gaiff wneud is-ddeddfau heb iddynt gael eu cadarnhau.

Felly, ni ddylai awdurdod ddibynnu ar Atodiad A fel datganiad diffiniol o'r gyfraith ar unrhyw adeg benodol.

Is-ddeddfau pan fo cadarnhad yn ofynnol

3.7. Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gadarnhau unrhyw is-ddeddf a wneir gan awdurdod o dan ddeddfiad nad yw wedi'i restru yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012. Mae adran 7 yn disodli, gydag addasiadau, ddarpariaethau yn adran 236 o Ddeddf 1972 ac mae'n rhagnodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud is-ddeddf nad yw'n ofynnol ei chadarnhau. Nid yw adran 7 yn gymwys i'r graddau bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer penodol i wneud yr is-ddeddf yn gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol:

a) gofyniad i gyflwyno is-ddeddfau ar gyfer cael cadarnhad;
b) cyhoeddi hysbysiad o fwriad i wneud yr is-ddeddf;
c) cyhoeddi'r is-ddeddf, neu drefnu bod copïau o'r is-ddeddf ar gael.

O dan yr amgylchiadau hynny ac i'r graddau hynny, bydd y darpariaethau presennol yn parhau mewn grym.

3.8. Mae tair rhan i'r weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau y mae'n ofynnol eu cadarnhau:

a) Cyhoeddi 'datganiad ysgrifenedig cychwynnol' ac ymgynghori â phersonau sydd â diddordeb yn y mater;
b) Cyhoeddi penderfyniad yr awdurdod a'r is-ddeddfau arfaethedig, os yw'n briodol; ac
c) Yr is-ddeddfau'n cael eu gwneud, eu cadarnhau ac yn dod yn effeithiol.

3.9. Yn ogystal, mae adran 7 yn darparu ei bod yn ofynnol i Weinidogion Cymru gadarnhau is-ddeddf a wneir gan awdurdod i ddiwygio neu ddirymu is-ddeddf a wnaed yn flaenorol o dan ddeddfiad na restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012, a'i bod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn a ragnodir yn adran 7.

## Canllawiau Statudol

3.10. O ystyried pwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 9 o Ddeddf 2012 i ychwanegu deddfiadau at Ran 1 o Atodlen 1 neu eu tynnu ohoni, dylai awdurdodau gyfeirio yn ôl bob amser at y fersiwn ddiweddaraf o Ddeddf 2012 er mwyn sicrhau y dilynir y weithdrefn briodol. Dylai hon fod ar gael o'ch adran gyfreithiol.

3.11. Wrth wneud is-ddeddf nad yw'n ofynnol ei chadarnhau, dylai awdurdodau gyfeirio at y canllawiau statudol yn y ddogfen hon, yn enwedig adran 6 o Ddeddf 2012 a Rhan 3 o'r canllawiau hyn.

3.12. Wrth wneud is-ddeddf y mae'n ofynnol ei chadarnhau, dylai awdurdodau gyfeirio at y canllawiau statudol a nodir yn y ddogfen hon, yn enwedig adran 7 o Ddeddf 2012 a Rhan 3 o'r canllawiau hyn.

## Ymgynghori

### Cyflwyniad

3.13. Mae ymgynghori'n rhan allweddol o'r broses o wneud is-ddeddfau a gall wneud y gwahaniaeth rhwng proses lefn a phroses hir ac anodd.

3.14. Er bod ymgynghori cyn penderfynu gwneud is-ddeddf yn cael ei gyfrif yn arfer da i awdurdodau o dan y weithdrefn gadarnhau yn Neddf 1972, nid oedd yn ofyniad statudol. Mae Deddf 2012 yn darparu ei bod yn **rhaid** i awdurdodau ymgynghori â phersonau sydd â diddordeb yn y mater i ddechrau er mwyn penderfynu ai is-ddeddf yw'r ffordd fwyaf addas o fynd i'r afael â phroblem benodol. O leiaf chwe wythnos cyn cyflwyno'r is-ddeddf i gael ei chadarnhau, mae'n rhaid cyhoeddi hysbysiad o fwriad yr awdurdod deddfu i wneud hynny.

3.15. Rhaid ymgynghori ynghylch is-ddeddfau y mae'n ofynnol eu cadarnhau a rhai nad ydyw. Fodd bynnag, os yw is-ddeddfau y mae'n ofynnol eu cadarnhau yn ddarostyngedig i ddarpariaeth sy'n bod eisoes ynghylch cyhoeddi hysbysiad o fwriad i wneud yr is-ddeddf, neu gyhoeddi'r is-ddeddf, bydd y darpariaethau presennol yn gymwys.

### Darpariaethau Deddf 2012

3.16. O dan Ddeddf 2012, cyn gwneud is-ddeddf o dan ddarpariaethau naill ai adran 6 (is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol) neu adran 7 (is-ddeddfau pan fo cadarnhad yn ofynnol) o Ddeddf 2012, mae'n rhaid i awdurdod:

a) cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cychwynnol ar wefan yr awdurdod sy'n disgrifio'r mater y mae'r awdurdod o'r farn y gellir mynd i'r afael ag ef drwy wneud is-ddeddf; a
b) ymgynghori ag unrhyw berson (gan gynnwys cyngor cymuned pan fo hynny'n gymwys) y mae'r awdurdod o'r farn ei fod yn debygol o fod â diddordeb yn y mater neu'n cael ei effeithio ganddo.

3.17. Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod ystyried yr ymatebion a phenderfynu ai gwneud is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater.

3.18. Yna rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig ar ei wefan yn cynnwys:

a) y datganiad ysgrifenedig cychwynnol;
b) crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymatebion; ac

c) ei benderfyniad – naill ai i gyflwyno is-ddeddfau neu i fynd i'r afael â'r broblem trwy ddulliau eraill – a'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

## Canllawiau Statudol

3.19. Cyn gwneud is-ddeddfau, mae'n rhaid i awdurdod baratoi a chyhoeddi, ar ei wefan, ddatganiad ysgrifenedig cychwynnol sy'n disgrifio'r mater neu'r broblem dan sylw. Nid yw'r canllawiau statudol hyn yn rhagnodi pa ffurf y dylai'r datganiad ysgrifenedig cychwynnol hwn ei gymryd ond argymhellir ei fod yn diffinio'n glir:

a) natur, maint ac amlder y mater neu'r broblem;
b) yr ardal lle mae'r mater neu'r broblem yn codi; ac
c) pob dewis rhesymol ymarferol, yn cynnwys is-ddeddf ond heb ei gyfyngu i hynny, ar gyfer datrys y mater neu'r broblem.

3.20. Cafodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona y Swyddfa Gartref Gydsyniad Brenhinol ar 13 Mawrth 2014. Ymysg mesurau eraill, cyflwynodd y ddeddfwriaeth hon Orchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus a Hysbysiadau Gwarchod Cymunedau, sy'n targedu'n benodol yr ymddygiad neu'r niwsans perthnasol ac yn disodli mesurau fel Parthau Rheoli Alcohol a Gorchmynion Rheoli Cŵn. Cyn ymgynghori, dylai awdurdodau ystyried a yw'r rhain a ffyrdd eraill o reoleiddio yn fwy priodol na gwneud is-ddeddfau.

3.21. Weithiau, gallai ymgynghori arwain at ddatrys y broblem yn wirfoddol, gan osgoi'r angen i fabwysiadu is-ddeddfau. Mewn enghraifft o fywyd go iawn, roedd y defnydd o linyn gwirion (silly string) mewn rhai carnifalau yn niwsans i'r bobl oedd yno a gallai fod yn beryglus o'i chwistrellu ar ffenestri blaen ceir. I ddechrau, bu'r cyngor yn ystyried defnyddio is-ddeddfau i oresgyn y broblem ond, ar ôl cael cyngor gan swyddogion Llywodraeth Cymru, cytunwyd y gallai hynny fod yn rhy fiwrocrataidd. Cafodd y broblem ei datrys trwy gyfathrebu effeithiol, gan bwysleisio nad oedd hawl defnyddio llinyn gwirion a thrwy gydweithrediad y bobl oedd yn dod i'r carnifalau.

3.22. Os yw'r awdurdod yn ystyried cyflwyno is-ddeddfau, mae angen iddo fod yn sicr bod ganddo'r pwerau i wneud yr is-ddeddfau ac nad yw hynny'n dyblygu nac yn croes-ddweud deddfwriaeth sy'n bod eisoes. Dylai ddilyn datblygiadau newydd mewn deddfwriaeth. Trwy gydol y broses ymgynghori ac wrth wneud y penderfyniad sy'n dilyn hynny, dylai gadw meddwl agored wrth ystyried ai is-ddeddf yw'r ffordd fwyaf addas i ymateb i fater.

3.23. Wrth gynnal yr ymgynghoriad, mae angen i awdurdod ganfod, hyd y bo modd, unrhyw bersonau neu sefydliadau y mae o'r farn eu bod yn debygol o fod â diddordeb yn y mater dan sylw neu gael eu heffeithio ganddo. Nid yw'r canllawiau statudol hyn yn rhagnodi pa ffurf y dylai'r ymgynghori hwn ei gymryd. Fodd bynnag, dylai awdurdodau geisio

sicrhau bod yr ymgynghori yn gynhwysol a'i fod yn ystyried gwahanol anghenion y sawl a allai ymateb. Wrth gynllunio proses ymgynghori, dylai awdurdodau roi sylw i arferion gorau wrth gynnal ymgyngoriadau (gweler isod). Os yw'n berthnasol, mae'n rhaid ymgynghori ag unrhyw gyngor/gynghorau cymuned y mae'r mater dan sylw yn effeithio ar eu hardal.

3.24. Dyma enghreifftiau o ymgyngoreion y gellid eu cynnwys: grwpiau cymunedol; grwpiau diddordeb arbennig; awdurdodau unedol eraill; cyrff proffesiynol; sefydliadau defnyddwyr a chymdeithasau masnach, yn ogystal â thrigolion, busnesau a sefydliadau eraill y mae'r mater yn effeithio'n uniongyrchol arnynt, a'r cyhoedd yn gyffredinol.

3.25. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Un Llais Cymru a Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a ddatblygwyd gan Cyfranogaeth Cymru. Mae Cyfranogaeth Cymru yn bartneriaeth o fudiadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n gysylltiedig â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. Maent yn cydweithio â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat er mwyn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd wrth gynllunio, datblygu a darparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd er budd pobl Cymru.

3.26. Anogir awdurdodau deddfu i roi sylw i'r Egwyddorion Cenedlaethol a'r canllawiau cysylltiedig wrth baratoi i gynnal ymgyngoriadau o dan Ddeddf 2012. Mae'r rhain i'w cael ar wefan Cyfranogaeth Cymru: http://www.participationcymru.org.uk/?diablo.lang=cym

3.27. Diben y datganiad ysgrifenedig cychwynnol a'r ymgynghoriad yw canfod y ffordd fwyaf addas o fynd i'r afael â'r mater gwaelodol: ni ddylid cymryd yn ganiataol mai gwneud is-ddeddf yw'r unig ateb ar y cam hwn yn y broses. Ymhlith yr atebion eraill y gellid eu hystyried mae defnyddio deddfwriaeth sy'n bod eisoes; cyfeirio at arferion da / astudiaethau achos; dilyn polisi Llywodraeth Cymru; cynnal cynlluniau ymwybyddiaeth; a dilyn codau ymddygiad.

3.28. Dylid cadw'r ymgynghoriad yn agored am gyfnod rhesymol (12 wythnos yw'r cyfnod ymgynghori safonol a ddilynir gan Lywodraeth Cymru) er mwyn i gynifer o bersonau â diddordeb ag y bo modd gael cyfle i ymateb.

3.29. Ar ôl yr ymgynghoriad, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr holl ymatebion a phenderfynu ai gwneud is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater. Yna, mae'n ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi, ar ei wefan, ail ddatganiad ysgrifenedig ac mae'n rhaid i hwnnw gynnwys:

a) y datganiad ysgrifenedig cychwynnol;
b) crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymatebion;
c) penderfyniad yr awdurdod; a
d) y rhesymau dros y penderfyniad hwnnw.

3.30. Weithiau, gall yr ymatebion i'r ymgynghoriad awgrymu ateb mwy priodol na gwneud is-ddeddf, a dylai'r awdurdod fynd ati'n gydwybodol i ystyried yr holl ymatebion cyn gwneud penderfyniad. Mae hefyd yn bosibl y gall yr ymgynghoriad arwain at ddatrys y broblem yn wirfoddol heb fod angen mabwysiadu is-ddeddfau.

3.31. Efallai nad oes gan rai awdurdodau, er enghraifft, gynghorau cymuned, wefan ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mewn amser, bydd disgwyl i bob cyngor cymuned gyhoeddi gwybodaeth ar wefan. Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 ("Deddf Democratiaeth"), yn darparu y dylai pob cyngor tref a chyngor cymuned roi eu manylion cysylltu, manylion eu haelodau, a chofnodion eu trafodion, ar y rhyngrwyd erbyn i'r adran berthnasol o'r Ddeddf Democratiaeth ddod i rym. Nid yw'r Ddeddf Democratiaeth yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor tref neu gyngor cymuned gael ei wefan ei hunan. Yn aml, gall fod modd i'r prif gyngor lleol neu gorff aelodaeth fel Un Llais Cymru we-letya'r wefan. Yn ogystal, mae'r Ddeddf Democratiaeth yn darparu ar gyfer Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau ar y mater hwn.

3.32. Pasiwyd y Ddeddf Democratiaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 18 Mehefin 2013 a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Disgwylir y bydd y darpariaethau ynghylch gwefannau yn dod yn effeithiol ym mis Mai 2015.

## Cyhoeddi bwriad awdurdod i wneud is-ddeddf, neu i gyflwyno is-ddeddf i gael ei chadarnhau

### Darpariaethau Deddf 2012

3.33. Ar ôl ymgynghori, os yw awdurdod yn penderfynu gwneud is-ddeddf, mae Deddf 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod gyhoeddi hysbysiad o'i fwriad i wneud is-ddeddf neu gyflwyno is-ddeddf i gael cadarnhad o leiaf chwe wythnos cyn gwneud hynny:

a) mewn un neu fwy o bapurau newyddion lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal lle bydd yr is-ddeddf yn gymwys; a
b) ar wefan yr awdurdod.

3.34. Yn ogystal, am o leiaf chwe wythnos cyn i'r is-ddeddf gael ei gwneud neu ei chyflwyno i'w chadarnhau, mae Deddf 2012 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod sicrhau:

a) bod fersiwn ddrafft o'r is-ddeddf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod (yn achos is-ddeddfau nad yw'n ofynnol eu cadarnhau);
b) bod yr is-ddeddf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod (yn achos is-ddeddfau y mae'n ofynnol eu cadarnhau);
c) bod copi'n cael ei adneuo mewn man yn ardal yr awdurdod;

d) yn achos is-ddeddfau a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru, bod copi'n cael ei adneuo yn ardal pob sir neu fwrdeistref sirol y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w hardal;
e) bod copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl; ac
f) pan fo'n gymwys, bod copi yn cael ei anfon at bob cyngor cymuned y mae'r awdurdod o'r farn ei bod yn debygol y bydd yr is-ddeddf yn effeithio ar ei ardal.

3.35. Yn olaf, mae'n rhaid i'r awdurdod roi copi i unrhyw un sy'n gwneud cais am gopi. Gall yr awdurdod ei gwneud yn ofynnol i'r person hwnnw dalu ffi resymol.

**Canllawiau Statudol**

3.36. Dylid rhoi hysbysiad fel a ddisgrifir uchod mewn papur newyddion lleol (o leiaf) gan roi gwybod i'r cyhoedd am y bwriad i wneud is-ddeddf. Fodd bynnag, dylai awdurdodau ystyried defnyddio nifer o wahanol gyfryngau, yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol, fel bod eu bwriadau'n cael eu cylchredeg yn eang.

3.37. Mae'n rhaid bod copïau papur o is-ddeddfau drafft ar gael i'r cyhoedd eu gweld hefyd. Nid yw bob amser yn hawdd cyrraedd prif swyddfeydd awdurdodau ar droed neu ar gludiant cyhoeddus. Yn ogystal, yn aml iawn, nid oes gan gynghorau cymuned adeiladau swyddogol. Am y rhesymau hynny, dylai awdurdodau sicrhau bod copïau o is-ddeddfau ar gael i'r cyhoedd eu darllen mewn mannau sy'n rhesymol agos at yr ardaloedd y byddant yn effeithio arnynt. Gallai llyfrgelloedd lleol, canolfannau hamdden ac adeiladau cymunedol eraill tebyg a reolir gan yr awdurdodau fod yn lleoedd addas.

3.38. Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr awdurdod yn penderfynu a yw am wneud yr is-ddeddf (neu yn achos is-ddeddf y mae angen ei chadarnhau, a yw am geisio cadarnhad) ac, os felly, a oes angen ei haddasu mewn rhyw ffordd. Bydd y penderfyniad hwn yn cymryd i ystyriaeth unrhyw wrthwynebiadau/sylwadau a dderbynnir ynghylch yr is-ddeddfau drafft yn ystod y cyfnod ymgynghori. Efallai y bydd yr awdurdod yn dymuno nodi'r gwrthwynebiadau hyn, ond symud ymlaen â'r is-ddeddfau. Ar y llaw arall, efallai y bydd yr awdurdod yn dymuno cydnabod bod y gwrthwynebiad yn un dilys ac, ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yn penderfynu rhoi'r gorau i'r is-ddeddfau drafft neu eu haddasu. Os yw'r newid yn fwy nag addasiad bychan, efallai y bydd angen mynd trwy'r cyfnod ymgynghori o 6 wythnos unwaith eto.

## Gwneud yr is-ddeddf a'r dyddiad dod i rym

### Darpariaethau Deddf 2012

3.39. Yn achos is-ddeddfau nad yw'n ofynnol eu cadarnhau, mae Deddf 2012 yn rhagnodi na chaiff awdurdod wneud is-ddeddf yn hwyrach na chwe mis ar ôl y dyddiad y cyhoeddodd yr hysbysiad o'i fwriad i wneud hynny.

3.40. O dan Ddeddf 2012, mae'n ofynnol i is-ddeddfau gael eu gwneud o dan sêl gyffredin yr awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned nad oes sêl ganddo, mae'n ofynnol i ddau aelod o'r cyngor eu llofnodi. Nid yw'r gofyniad hwn yn gymwys os yw'r deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud yr is-ddeddf yn gwneud darpariaethau gwahanol mewn perthynas â llofnodi neu roi sêl ar yr is-ddeddf.

3.41. Yn achos is-ddeddfau nad yw'n ofynnol eu cadarnhau, mae Deddf 2012 yn darparu y caiff yr awdurdod bennu'r dyddiad pryd y daw'r is-ddeddfau yn effeithiol. Os na phennir dyddiad, daw'r is-ddeddf yn effeithiol ar ddiwedd un mis ar ôl y dyddiad y gwnaed yr is-ddeddf.

3.42. Yn achos is-ddeddfau y mae'n ofynnol eu cadarnhau, mae Deddf 2012 yn darparu y caiff yr awdurdod sy'n eu cadarnhau bennu'r dyddiad pryd y daw'r is-ddeddfau yn effeithiol. Os na phennir dyddiad, daw'r is-ddeddf yn effeithiol ar ddiwedd un mis ar ôl y dyddiad y cadarnhawyd yr is-ddeddf.

### Canllawiau Statudol

3.43. Dylid rhoi'r sêl ar dudalen ddiwethaf yr is-ddeddf, ar ôl unrhyw atodlenni neu gynlluniau sy'n rhan o'r is-ddeddf. Dylid llofnodi a dyddio'r is-ddeddf hefyd.

3.44. Os oes angen cadarnhau'r is-ddeddf, dylid gadael digon o le, o leiaf 15 centimetr (6 modfedd), ar ôl y sêl fel y gellir llofnodi'r is-ddeddf ar ran Gweinidogion Cymru ar ôl ei chadarnhau.

3.45. Yn achos cyngor cymuned sydd heb sêl, dylai dau aelod o'r cyngor ei llofnodi.

## Cyflwyno is-ddeddf i gael ei chadarnhau

### Cyflwyniad

3.46. Mae'r canllawiau isod yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod ac y mae'n ofynnol iddynt gael eu cadarnhau gan yr awdurdod cadarnhau perthnasol.

### Darpariaethau Deddf 2012

3.47. O dan Ddeddf 2012, unwaith y mae awdurdod wedi gwneud is-ddeddf o dan ddeddfiad na restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012, mae'n rhaid cyflwyno'r is-ddeddf honno i'r awdurdod cadarnhau. At ddibenion y Ddeddf hon, yr awdurdod cadarnhau yw:

a) y person a bennir yn y deddfiad y gwneir yr is-ddeddf odano fel ‘y person sydd i gadarnhau’r is-ddeddf’; neu
b) Gweinidogion Cymru.

3.48. Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru fel awdurdod cadarnhau yn arferadwy yn gydredol â’r Ysgrifennydd Gwladol.

3.49. Caiff yr awdurdod cadarnhau gadarnhau, neu wrthod cadarnhau, unrhyw is-ddeddf a gyflwynir iddo gan awdurdod.

**Canllawiau**

3.50. Rhaid i’r awdurdod anfon dau gopi o’r is-ddeddf o dan sêl a chopi o’r hysbysiad i’r wasg, yn cyhoeddi ei fwriad i gyflwyno’r is-ddeddf i gael ei chadarnhau, at yr awdurdod cadarnhau. Gan amlaf, gwneir yr is-ddeddfau o dan ddeddfwriaeth ddatganoledig ac, yn ymarferol, Gweinidogion Cymru yn hytrach na’r Ysgrifennydd Gwladol fydd yr awdurdod cadarnhau. Cyn eu cyflwyno, dylai’r awdurdod sicrhau mai: dyma’r fersiwn gywir o’r is-ddeddfau; a bod y llofnodion a’r seliau wedi’u rhoi yn y lleoedd cywir (gweler paragraffau 3.42 i 3.44).

3.51. Cyn cadarnhau’r is-ddeddfau, bydd yr awdurdod cadarnhau yn ceisio sicrhau:

a) bod yr is-ddeddfau drafft yn rhai intra vires ac nad ydynt yn dyblygu nac yn gwrthdaro â’r gyfraith gyffredinol, deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, is-ddeddfau sy’n bod eisoes, na Deddf leol berthnasol;
b) bod yr wybodaeth yn yr ail ddatganiad ysgrifenedig yn cefnogi gwneud yr is-ddeddfau drafft hyn ac nad yw’n gwrthdaro â pholisi Llywodraeth Cymru; ac
c) nad oes gwrthwynebiadau gan drydydd partïon ar ôl heb eu datrys.

3.52. Fel egwyddor gyffredinol, mater i’r awdurdod yw penderfynu ar yr is-ddeddfau angenrheidiol a phriodol ar gyfer ei ardal. Ar yr amod nad oes problem gyfreithiol a dim gwrthdaro â pholisi cyffredinol y llywodraeth, ni fydd Gweinidogion Cymru yn gwrthwynebu nac yn cwestiynu is-ddeddf yn unig gan fod eu barn hwy am yr hyn sy’n angenrheidiol neu’n briodol yn wahanol i farn yr awdurdod. Ni fydd Gweinidogion Cymru, chwaith, yn gwrthwynebu nac yn cwestiynu agweddau ar is-ddeddfau sy’n ymwneud â materion hollol leol, fel yr union ardaloedd y maent yn gymwys iddynt. Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd yn ganiataol fod geiriad unrhyw is-ddeddf wedi’i wirio a’i fod yn fwriadol: bydd y dybiaeth hon yn berthnasol i unrhyw beth a hepgorir neu a gynhwysir ac unrhyw ddatganiad am yr ardaloedd y bydd yr is-ddeddfau’n cyfeirio atynt. Os nad oes gan wall ymddangosiadol oblygiadau cyfreithiol neu ei fod yn effeithio ar bwynt o egwyddor, ni fydd Gweinidogion Cymru’n codi’r mater gyda’r awdurdod. Fodd bynnag, os oes gan wall ymddangosiadol oblygiadau cyfreithiol

neu os yw'n effeithio ar bwynt o egwyddor, gall Gweinidogion Cymru wrthod cadarnhau'r is-ddeddfau a/neu awgrymu newidiadau y byddai'n rhaid i'r awdurdod eu gwneud er mwyn i'r is-ddeddfau gael eu cadarnhau.

3.53. Mewn achos felly, byddai angen i'r awdurdod roi sêl ar yr is-ddeddfau eto ar ôl gwneud y newidiadau, ac yna gyhoeddi'r hysbysiad a'r is-ddeddfau am chwe wythnos cyn eu cyflwyno i'w cadarnhau unwaith eto.

3.54. Unwaith y bydd Gweinidogion Cymru wedi cadarnhau'r is-ddeddfau, anfonir y copïau terfynol, wedi'u llofnodi, at yr awdurdod gyda'r dyddiad y deuant i rym.

## Cyhoeddi is-ddeddf unwaith y bydd wedi'i gwneud neu ei chadarnhau

### Darpariaethau Deddf 2012

3.55. Yn ôl Deddf 2012, unwaith y bydd is-ddeddf wedi'i gwneud, neu wedi'i chadarnhau os yw'n berthnasol, mae'n rhaid i'r awdurdod:

a) gyhoeddi'r is-ddeddf ar wefan yr awdurdod;
b) adneuo copi o'r is-ddeddf mewn man yn ardal yr awdurdod;
c) sicrhau bod y copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl;
d) rhoi copi o'r is-ddeddf i rywun sy'n gofyn amdano (caiff yr awdurdod godi ffi resymol ar y person hwnnw).

3.56. Rhaid i swyddog priodol awdurdod lleol anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol cyngor pob cymuned y mae'r is-ddeddf yn gymwys iddi.

3.57. Rhaid i swyddog priodol y cyngor cymuned sicrhau bod copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau:

a) yn cael ei adneuo gyda dogfennau cyhoeddus y gymuned; a
b) ar gael i'w weld gan y cyhoedd.

3.58. Yn achos is-ddeddfau a wneir gan awdurdod Parc Cenedlaethol, rhaid i swyddog priodol yr awdurdod anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol:

a) cyngor pob bwrdeistref sirol neu sir y mae ei hardal yn cynnwys y cyfan neu ran o'r Parc Cenedlaethol; a
b) cyngor pob cymuned y mae ei hardal yn cynnwys y cyfan neu ran o'r Parc Cenedlaethol.

3.59. Yn achos is-ddeddfau a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru[2] o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, rhaid iddo anfon copi o is-ddeddf cyn gynted â'i bod wedi ei gwneud, neu pan fo'n ofynnol cyn gynted â'i bod wedi ei chadarnhau, at swyddog priodol:

a) cyngor pob bwrdeistref sirol neu sir y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w hardal; ac at
b) cyngor pob cymuned y mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w hardal.

At ddibenion Deddf 2012, mae 'swyddog priodol' yn cyfeirio at y swyddog a awdurdodwyd yn briodol gan awdurdod at y diben hwnnw yn yr awdurdod hwnnw.

### Canllawiau Statudol

3.60. Mae'n rhaid bod y man lle caiff yr is-ddeddfau eu hadneuo yn agored i aelodau'r cyhoedd yn ardal yr awdurdod hwnnw. Am y rheswm hwnnw, nid oes raid iddo fod yn brif swyddfa'r awdurdod ond gall fod yn adeilad cyhoeddus neu'n amwynder fel y llyfrgell neu'r ganolfan hamdden leol.

## Dirymu Is-ddeddfau

### Cyflwyniad

3.61. Mae gan awdurdodau bwerau, ymhlyg neu fel arall, i ddiwygio neu ddirymu is-ddeddfau a wnaed ganddynt yn flaenorol o dan ddeddfwriaeth alluogi. Fodd bynnag, mae adran 4 o Ddeddf 2012 yn caniatáu i awdurdod ddirymu is-ddeddf a wnaed ganddo yn flaenorol pan nad yw'r pŵer i wneud hynny yn bodoli bellach. Mae Adran 5 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddirymu darpariaethau is-ddeddfau sy'n anarferedig. Bydd awdurdod yn cael gwneud is-ddeddf newydd i gymryd lle is-ddeddf anarferedig.

### Darpariaethau Deddf 2012

3.62. Mae Adran 4 o Ddeddf 2012 yn addasu rhan o adran 236B o Ddeddf 1972. Mae'n rhoi pŵer i awdurdod wneud is-ddeddf i ddirymu is-ddeddf flaenorol pan nad oes pŵer arall i wneud hynny.

3.63. Os cafodd yr is-ddeddf sy'n cael ei dirymu ei gwneud yn wreiddiol o dan ddeddfiad a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012, **nid oes** angen cadarnhau'r is-ddeddf a wneir i'w dirymu. Fodd bynnag, os cafodd yr is-ddeddf sy'n cael ei dirymu ei gwneud yn wreiddiol o dan ddeddfiad na restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012, **mae** angen cadarnhau'r is-ddeddf a wneir i'w dirymu.

[2] Gweler y troednodyn cynharach ynghylch yr angen i ddiwygio Deddf 2012 i roi cyfeiriadau at Cyfoeth Naturiol Cymru yn lle cyfeiriadau at Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

3.64. Mae Adran 5 o Ddeddf 2012 yn addasu rhan o adran 236B o Ddeddf 1972. Mae'n rhoi'r gallu i Weinidogion Cymru i wneud gorchymyn yn dirymu is-ddeddf y maent hwy o'r farn ei bod yn anarferedig.

3.65. Mae Deddf 2012 yn rhagnodi ei bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw berson, gan gynnwys cyngor cymuned, y maent o'r farn ei bod yn debygol y bydd ganddo ddiddordeb yn nirymiad yr is-ddeddf neu y bydd y dirymiad yn effeithio arno, cyn gwneud gorchymyn i ddirymu is-ddeddf.

3.66. Caiff gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru wneud darpariaethau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol, gan gynnwys darpariaethau gwahanol ar gyfer broydd gwahanol ac ar gyfer awdurdodau gwahanol.

### Canllawiau Statudol

3.67. Nid yw Gweinidogion Cymru yn rhagweld y cynhelir adolygiad systematig o'r is-ddeddfau sy'n bodoli yng Nghymru. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio'u pwerau o dan adran 5 pan fydd awdurdod yn gofyn iddynt wneud hynny gan fod y pŵer i ddirymu is-ddeddf anarferedig neilltuol yn aneglur neu gan ei bod yn aneglur pa awdurdod ddylai ddirymu'r is-ddeddf fel arall.

## Tystiolaeth o Is-ddeddfau

### Cyflwyniad

3.68. Mae aelodau'r cyhoedd a busnesau yn cael gofyn am gopïau ardystiedig o is-ddeddfau. Efallai y gwnânt hyn er mwyn deall yr is-ddeddfau a sicrhau eu bod hwy eu hunain yn cydymffurfio â hwy, neu at ddibenion eraill, fel riportio pobl eraill am beidio â chydymffurfio neu i'w defnyddio mewn achos llys neu anghydfod.

3.69. Mae adran 19 o Ddeddf 2012 yn dweud beth sy'n gopi ardystiedig a sut y gwneir copi ardystiedig.

### Darpariaethau Deddf 2012

3.70. Mae Deddf 2012 yn rhagnodi bod dangos copi ardystiedig o is-ddeddf a wnaed gan awdurdod deddfu, nes profir i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol o'r is-ddeddf.

3.71. At ddibenion adran 19 o Ddeddf 2012, copi ardystiedig o is-ddeddf yw copi wedi ei argraffu o'r is-ddeddf a gadarnheir gan dystysgrif sy'n honni iddi gael ei llofnodi gan swyddog priodol awdurdod deddfu, gan ddatgan:

a) bod yr is-ddeddf wedi cael ei gwneud gan yr awdurdod;
b) bod y copi yn gopi gwir o'r is-ddeddf;

c) bod yr is-ddeddf wedi ei chadarnhau ar ddyddiad penodedig gan yr awdurdod a enwir yn y dystysgrif neu, yn ôl y digwydd, wedi cael ei hanfon at yr awdurdod cadarnhau a heb gael ei gwrthod;
d) y dyddiad, os oes un, a bennwyd gan yr awdurdod cadarnhau i'r is-ddeddf ddod yn effeithiol.

3.72. Nid yw'r gofynion ym mharagraffau (c) a (d) yn gymwys os nad oedd yn ofynnol i'r is-ddeddf gael ei chadarnhau.

## Is-ddeddfau Model

### Cyflwyniad

3.73. Mae nifer o setiau gwahanol o is-ddeddfau model a chanllawiau cysylltiedig wedi cael, neu yn cael, eu datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhai is-ddeddfau. Mae'r rhain yn rhoi templed i awdurdodau i'w ddefnyddio wrth ddrafftio is-ddeddfau, gan nodi geiriad priodol i'w ddefnyddio mewn is-ddeddfau ar nifer o bynciau gwahanol. Maent yn ceisio bod yn ganllaw defnyddiol ac effeithlon i awdurdodau wrth wneud is-ddeddfau, gan weithredu fel man cyfeirio a chanllaw arferion gorau. [Bydd y modelau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law.]

### Darpariaethau Deddf 2012

3.74. Nid yw Deddf 2012 yn gwneud unrhyw ddarpariaeth mewn perthynas ag is-ddeddfau model.

### Canllawiau

3.75. Pan fydd awdurdod yn penderfynu bod is-ddeddf yn briodol, argymhellir bod yr awdurdod yn canfod yn gyntaf a yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi is-ddeddf fodel a chanllawiau cysylltiedig. Bydd y rhain i'w cael ar wefan Llywodraeth Cymru ar ôl cychwyn y Ddeddf yn 2015. Dylai awdurdod ystyried mabwysiadu is-ddeddf fodel, yn gyfan neu'n rhannol, yn hytrach na drafftio'i is-ddeddfau ei hunan o'r dechrau'n deg. Bydd dilyn is-ddeddfau model, lle maent ar gael, yn ei gwneud yn llai tebygol y ceir problemau drafftio neu y gweithredir is-ddeddfau nad ydynt yn addas at y diben. Yn ogystal, bydd y canllawiau manwl sy'n dod gyda phob set o is-ddeddfau model yn cynorthwyo awdurdodau deddfu trwy gynnig gwybodaeth i'w helpu, manylion cysylltu cymdeithasau perthnasol y gall fod angen ymgynghori â nhw ac awgrymiadau ymarferol eraill.

3.76. Gall set o is-ddeddfau model gynnwys unrhyw nifer o faterion posibl. Dylai awdurdodau nodi bod rhai o'r is-ddeddfau model unigol mewn nifer o'r setiau yn rhai dewisol ac mai dim ond y rhai sy'n angenrheidiol ac yn briodol y dylid eu mabwysiadu.

3.77. Cydnabyddir efallai nad yw is-ddeddfau model yn mynd i'r afael â phob mater neu broblem leol neilltuol a all godi mewn cymuned benodol. Felly, nid yw'n orfodol defnyddio is-ddeddfau model. Gyda'r eithriadau a drafodir isod, gall awdurdodau ychwanegu at yr is-ddeddfau model neu eu diwygio yng ngoleuni profiad, galw neu newid yn yr amgylchiadau. Os bydd awdurdodau'n newid neu'n addasu'r is-ddeddfau model, dylent ystyried cymryd cyngor cyfreithiol ar effaith y newidiadau a'u bodloni eu hunain na fyddai is-ddeddf arfaethedig yn un ultra vires.

3.78. Er bod y rhan fwyaf o'r is-ddeddfau model yn addas i'w diwygio, dylai awdurdodau fod yn ymwybodol y dylai rhai setiau o is-ddeddfau model, fel y rhai sy'n ymwneud â ffeiriau pleser a wnaed o dan Adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961, gael eu mabwysiadu fel pecyn, heb wyro o'r geiriad gwreiddiol. Mae'r is-ddeddfau hyn yn cynnwys gwybodaeth dechnegol gymhleth a manwl y cyfrifir ei bod yn hanfodol er mwyn gwarchod diogelwch y cyhoedd. Dylid cadw'r un safonau hyd y bo modd, er mwyn diogelwch y cyhoedd a chan na ellir disgwyl i bobl sy'n rhedeg ffeiriau teithiol i ymgyfarwyddo ag amrywiaeth o is-ddeddfau. Nid yw'n ddymunol cael amrywiadau lleol ar faterion diogelwch y cyhoedd.

# Rhan 4

# Gorfodi Is-ddeddfau

## Egwyddorion Cyffredinol

4.1. Mae dau brif lwybr gorfodi ar gael i awdurdodau deddfu: gorfodi dirwyon trwy'r Llysoedd Ynadon neu gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau). Gall yr ail lwybr sicrhau'r canlyniadau a ddymunir ar ei ben ei hun ond gall fod angen y cyntaf i'w ategu.

4.2. Mae defnyddio HCBau wedi'i gynnig fel ffordd amgen o orfodi is-ddeddfau yn Neddf 2012. Mae manteision HCBau yn cynnwys arbed arian o'i gymharu â gorfodi trwy'r Llysoedd Ynadon. Bwriad defnyddio'r HCBau yw sicrhau cydraddoldeb â mesurau gorfodi ar gyfer tramgwyddau lefel isel eraill fel gollwng sbwriel yn Neddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005. Mae hefyd yn broses syml ac uniongyrchol a all arbed amser a gwaith.

4.3. Mae defnyddio HCBau a rhoi dirwyon trwy'r Llysoedd Ynadon yn offerynnau y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â thramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau. Ymhlith y ffyrdd eraill a geir o hybu cydymffurfio ag is-ddeddfau a, gobeithio, osgoi'r angen i roi HCBau a dirwyon, mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth; gwell arwyddion a chyfarwyddiadau; a chyfathrebu mewn cylchlythyrau a gwefannau.

## Tramgwyddau yn erbyn Is-ddeddfau – Dirwyon

### Darpariaethau Deddf 2012

4.4. Mae adran 10 o Ddeddf 2012 yn addasu adran 237 o Ddeddf 1972 ynghylch y ddirwy sy'n daladwy yn ôl Deddf Cyfiawnder Troseddol 1982. Y newid i Ddeddf 1972 yw bod dirwy ar lefel 2 ar y raddfa safonol yn cael ei rhagnodi os nad yw'r deddfiad wedi pennu swm. Roedd Deddf 1972 yn rhagnodi'r swm o £50 yn y sefyllfa honno.

4.5. Gall is-ddeddfau a wneir gan awdurdod ddarparu bod unrhyw un sy'n torri'r is-ddeddf yn atebol, yn dilyn collfarn ddiannod, i ddirwy.

4.6. Mae Deddf 2012 yn rhagnodi na chaiff y ddirwy hon fod yn uwch na'r swm a bennwyd gan y deddfiad perthnasol neu, os na phennwyd swm, lefel 2 ar y raddfa safonol (£500 ar hyn o bryd) yw'r lefel ddiofyn gyfredol. Yn yr un modd, y ddirwy os ceir collfarn am dramgwydd sy'n parhau yw'r swm a bennir yn y deddfiad perthnasol neu £5 am bob diwrnod pryd y mae'r tramgwydd yn parhau.

### Canllawiau Statudol

4.7. Ynadon sy'n delio â thramgwyddau diannod ac, fel rheol, maent yn droseddau llai difrifol fel mân achosion o ddwyn, difrod troseddol, anhrefn cyhoeddus a thramgwyddau moduro. Fel rheol, nid oes gan y diffynnydd hawl i dreial ger bron rheithgor. Aelodau o'u cymuned leol

sydd wedi'u hyfforddi ond yn ddi-dâl ac yn gweithio rhan amser yw ynadon.

4.8. Uchafswm y gosb am un tramgwydd diannod yw chwe mis mewn carchar, a / neu ddirwy o hyd at £5000.

4.9. Dyma'r lefelau ar y raddfa safonol ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon:

- Lefel 1 £200
- Lefel 2 £500
- Lefel 3 £1000
- Lefel 4 £2500
- Lefel 5 £5000

4.10. Mae'n annhebygol y byddai'n gost-effeithiol i fynd ar ôl dirwyon bychain. Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu y gall gymryd unrhyw beth o 33 diwrnod i 320 diwrnod i gasglu cosbau ariannol sy'n ddyledus. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, mae Deddf 2012 yn pennu £500 neu lefel 2 fel y man diofyn ac mae hyn yn helpu i sicrhau ei bod yn gost-effeithiol ac yn werth chweil mynd ar ôl dirwyon trwy'r llysoedd.

## Y pŵer i gynnig cosbau penodedig am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau penodol

### Cyflwyniad

4.11. Er bod Deddf 2012 yn cadw'r dewis o orfodi is-ddeddfau trwy'r Llys Ynadon, mae hefyd yn cyflwyno dewis amgen, mwy effeithlon, o orfodi trwy Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau).

### Darpariaethau Deddf 2012

4.12. Mae adran 12 o Ddeddf 2012 yn galluogi awdurdod i ddefnyddio cosbau penodedig fel ffordd amgen o orfodi is-ddeddfau a wnaed o dan y deddfiadau a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2012.

4.13. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff swyddog awdurdodedig mewn awdurdod roi HCB yn cynnig y cyfle i berson fodloni unrhyw atebolrwydd i gollfarn am dramgwydd yn erbyn is-ddeddf a wnaed gan yr awdurdod hwnnw drwy dalu'r swm a nodir yn yr hysbysiad.

4.14. Mae is-adran (3) yn gwneud yr un ddarpariaeth i swyddog awdurdodedig cyngor cymuned roi HCBau mewn perthynas â thramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau a gyflawnir yn ei ardal, hyd yn oed os gwnaed yr is-ddeddf gan awdurdod deddfu heblaw'r cyngor cymuned.

4.15. Mae is-adran (4) yn darparu bod cosb benodedig yn daladwy i awdurdod deddfu'r swyddog a roddodd yr hysbysiad.

4.16. Mae is-adran (5) yn darparu bod gan y derbynnydd 14 o ddiwrnodau, ar ôl cael HCB, i dalu'r ddirwy a nodir, ac felly osgoi mynd i'r Llys Ynadon mewn perthynas â'r tramgwydd.

4.17. Mae is-adran (6) yn darparu ei bod yn rhaid i'r HCB roi digon o wybodaeth i'r derbynnydd fel bod natur y tramgwydd yn glir.

4.18. Mae is-adran (7) yn darparu ei bod yn rhaid i HCB nodi hefyd o fewn pa gyfnod na ddygir achos am y tramgwydd, swm y gosb benodedig a'r person y caniateir i'r gosb benodedig gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir iddi gael ei thalu.

4.19. Mae is-adran (8) yn darparu ar gyfer talu'r gosb benodedig drwy ragdaliad a phostio llythyr, ond mae'n cydnabod y gallai dulliau eraill fod yn ddilys.

4.20. Mae is-adran (9) yn dweud os anfonir llythyr i wneud y taliad, bernir bod taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai'r llythyr yn cyrraedd yn nhrefn arferol y post.

4.21. Mae is-adran (10) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu ffurf yr HCB a roddir o dan yr adran hon.

4.22. Mae is-adran (11) yn darparu, os cynhelir achos, y bydd tystysgrif a lofnodwyd ar ran prif swyddog cyllid awdurdod sy'n nodi bod y swm i dalu cosb benodedig wedi'i dderbyn, neu heb ei dderbyn, fel y bo'r achos, yn cael ei chyfrif yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

4.23. Mae is-adran (12) yn gwneud darpariaeth ynghylch y sawl a awdurdodir i roi HCBau. Bydd "swyddogion awdurdodedig" yn gyfyngedig i'r rhai a awdurdodir mewn ysgrifen gan yr awdurdod deddfu i gyflawni'r swyddogaeth. Gall fod yn gyflogai uniongyrchol i'r awdurdod deddfu, neu'n berson, neu'n gyflogai i berson, y mae gan yr awdurdod deddfu gontract gydag ef neu hi i orfodi is-ddeddfau. Trwy gytuno ymlaen llaw gyda phrif swyddog heddlu'r ardal o dan delerau'r darpariaethau yn Atodlenni 4 a 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, caiff Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson achrededig arall ymarfer pŵer swyddog awdurdodedig hefyd.

4.24. Mae is-adran (13) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau i ragnodi'r meini prawf sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned ei (h)awdurdodi at ddibenion rhoi hysbysiadau.

### Canllawiau Statudol

4.25. Gall cosbau penodedig fod yn ffordd effeithiol a gweladwy i asiantaethau gorfodi ymateb i dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau.

Mae profiad o roi Hysbysiadau Cosb Benodedig am dramgwyddau amgylcheddol lefel isel wedi dangos bod y cyhoedd, ar y cyfan, yn croesawu'r defnydd o gosbau penodedig, ar yr amod eu bod yn cael eu rhoi mewn ffordd synhwyrol, eu gorfodi yn deg, bod y swm yn gymesur â difrifoldeb y tramgwydd a'u bod yn cael eu gweld fel ymateb i broblemau go iawn.  Fodd bynnag, mae'n bwysig dilyn yr egwyddorion isod.

<u>Strategaeth Orfodi</u>

4.26. Dylai cosbau penodedig fod yn rhan o strategaeth orfodi ehangach. Dylid eu defnyddio i sicrhau bod adnoddau'n cael eu canolbwyntio ar feysydd blaenoriaeth a bod cydbwysedd addas yn cael ei sicrhau rhwng yr adnoddau a ddefnyddir i roi a gorfodi cosbau penodedig a'r rhai sy'n cael eu gwario ar erlyniadau am beidio â thalu cosbau penodedig ac am ddigwyddiadau mwy difrifol.

4.27. Yn ogystal, dylid defnyddio'r strategaeth orfodi i ddatblygu trefniadau safonol ar gyfer cosbau penodedig i'w dilyn gan bawb sydd â phwerau i roi cosbau penodedig, gyda chanllawiau ynghylch yr amgylchiadau pryd y dylid rhoi HCB. Mae'n arfer da i ymgynghori â'r cyhoedd ar gynnwys strategaeth orfodi, yn enwedig os na ddefnyddiwyd HCBau o'r blaen, neu os na ddefnyddiwyd hwy'n eang, ac i sicrhau bod y strategaeth a fabwysiedir ar gael i'r cyhoedd trwy (o leiaf) ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod.

4.28. Dylai awdurdodau ymgynghori ag unrhyw asiantaeth arall, fel contractwyr preifat neu'r heddlu, sy'n ymwneud â gorfodi yn yr ardal a cheisio cytuno ar brotocolau gweithio. Yn neilltuol, rhaid i awdurdodau lleol ystyried faint o allu sydd ganddynt i brosesu unrhyw gosbau penodedig a roddir ar eu rhan gan Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson achrededig o dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, yn cynnwys erlyn am beidio â thalu cosbau penodedig.

<u>Peidio â Thalu Cosbau Penodedig</u>

4.29. Gellir rhoi HCBau pan fydd swyddog gorfodi o'r farn fod tramgwydd wedi'i gyflawni, ac maent yn rhoi cyfle i'r tramgwyddwr honedig i osgoi cael ei erlyn trwy dalu'r gosb. Mae'n hanfodol felly, mai dim ond os oes digon o dystiolaeth i erlyn y person dan sylw os na thelir y gosb benodedig y rhoddir yr hysbysiad, a bod camau'n cael eu cymryd os na thelir y gosb.

4.30. Os na chymerir camau trwy'r llysoedd os bydd cosbau penodedig heb eu talu, bydd y defnydd o gosbau penodedig yn colli ei werth yn yr ardal a bydd llai o bobl yn eu talu.  Mae'n rhaid ystyried yr angen i gymryd camau i fynd ar ôl cosbau penodedig sydd heb eu talu wrth ddatblygu strategaeth orfodi a rhaid sicrhau bod yr adnoddau angenrheidiol ar gael.  Nid yw'n dderbyniol i awdurdod benderfynu ar ôl

rhoi HCB nad oes ganddo ddigon o adnoddau i erlyn os na thelir y gosb.

Dechrau Defnyddio Hysbysiadau Cosb Benodedig

4.31. Argymhellir bod awdurdodau sy'n ystyried defnyddio HCBau am y tro cyntaf yn rhoi cryn dipyn o gyhoeddusrwydd i'r bwriad am gyfnod cyn dechrau eu defnyddio. Dylai hyn helpu i sicrhau cefnogaeth y cyhoedd i gosbau penodedig. Yn ystod y cyfnod hwn, pan gyflawnir tramgwydd, ni ddylai'r swyddogion gorfodi roi HCBau; os yw'r tramgwydd yn un difrifol, dylent riportio'r tramgwyddwr gyda'r bwriad o'i erlyn; mewn achosion eraill, dylent rybuddio y gall tramgwyddau tebyg arwain at HCB (neu erlyniad) yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth yn y gymuned a dylai helpu i reoli canfyddiad y cyhoedd o'r datblygiad.

4.32. Yn ogystal, dylai awdurdodau ddatblygu strategaeth gyfathrebu gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth i baratoi ar gyfer cyflwyno cynllun yr HCBau. Gallai strategaeth fel hyn ddefnyddio'r cyfryngau lleol, a gallai awdurdodau sydd â gwefannau gyhoeddi datganiadau gorfodi, manylion y ddeddfwriaeth a'r pwerau y mae'r awdurdodau yn bwriadu eu defnyddio, ac esbonio pam. Bydd angen amcanion clir, y cytunir arnynt, ar unrhyw strategaeth orfodi, yn cynnwys strategaeth ar gyfer defnyddio HCBau. Bydd angen i'r amcanion hyn nodi pa dramgwyddau y bwriedir mynd i'r afael â hwy, pa bwerau y bwriedir eu defnyddio a beth yw'r nod. Yn y pen draw, dylai'r amcanion fynegi yr hyn y mae'r awdurdod yn ceisio'i gyflawni trwy ddefnyddio'r pwerau a rhoi'r HCBau.

4.33. Gallai swyddogion ac aelodau'r awdurdod godi ymwybyddiaeth yn y gymuned trwy, er enghraifft, ymweld ag ysgolion, colegau a chyfarfodydd cymunedol, a gellid dosbarthu taflenni i gartrefi.

Hyfforddiant

4.34. Mae'r pwyntiau uchod yr un mor berthnasol i gynghorau cymuned a chynghorau tref sy'n penderfynu gorfodi is-ddeddfau trwy HCBau. Yn neilltuol, mae'n rhaid iddynt sicrhau bod ganddynt ddigon o adnoddau i fynd ar ôl cosbau penodedig sydd heb eu talu. Dylech gyfeirio at Ran 5 o'r canllawiau hyn hefyd.

4.35. Dylai awdurdodau sicrhau bod unrhyw staff sy'n ymwneud â gorfodi, yn cynnwys staff rheoli, yn cael digon o hyfforddiant cyn i'r HCBau ddechrau cael eu rhoi ar ôl cyflwyno'r darpariaethau newydd ar gyfer cosbau penodedig. Mae canllawiau ychwanegol penodol ar gael i gynghorau cymuned: gweler paragraffau 5.2 i 5.10 isod.

## Swm cosb benodedig

### Cyflwyniad

4.36. Mae adran 13 yn darparu ar gyfer lefel y cosbau penodedig y caiff yr awdurdod deddfu eu pennu am dorri is-ddeddfau. Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau yn nodi'r rhychwant y mae'n rhaid i swm unrhyw gosb benodedig ddod oddi mewn iddo.

4.37. Os nodwyd rhychwant, caiff awdurdod deddfu ddewis pennu swm y tu mewn i'r rhychwant hwnnw. Os nad yw'r awdurdod deddfu'n pennu cosb am dorri is-ddeddf, mae'r adran yn darparu ar gyfer swm diofyn o £75. Mae'r adran hon yn galluogi'r Gweinidogion i wneud gorchymyn i newid y swm diofyn yn ôl yr angen fel bod y lefel yn dal i gyfateb i'r gosb am dramgwyddau lefel isel eraill tebyg.

### Canllawiau Statudol

4.38. Mae Rheoliadau Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cosbau Penodedig) Cymru 201[ ] yn pennu rhychwant o rhwng £50 a £150. Bwriad hyn yw galluogi awdurdodau deddfu i bennu dirwyon sy'n gymesur â'r gwaith o fynd i'r afael â throseddau amrywiol iawn.

4.39. Dylid bod yn ofalus wrth bennu lefel y dirwyon nad yw'r cyhoedd yn gweld HCBau fel dim ond ffordd i'r awdurdod wneud arian. Gallai swyddogion yr awdurdod godi ymwybyddiaeth y cyhoedd trwy, er enghraifft, ymweld ag ysgolion, colegau a chyfarfodydd cymunedol, dosbarthu taflenni i gartrefi, a rhoi hysbysiadau mewn papurau newydd sydd â chylchrediad yn yr ardal y mae'r is-ddeddfau'n ymwneud â hwy. Gallai'r rhain fod yn ffyrdd effeithiol o roi gwybod i bobl am y bwriad i ddefnyddio HCBau, y dirwyon a'r rhesymau dros ddefnyddio'r dull hwn.

## Y pŵer i ofyn am enw a chyfeiriad mewn cysylltiad â chosb benodedig

### Cyflwyniad

4.40. O dan adran 14 o Ddeddf 2012, caiff swyddog awdurdodedig fynnu bod y person y rhoddir HCB iddo yn rhoi ei enw a'i gyfeiriad. Mae'n dramgwydd i'r person wrthod gwneud hynny neu roi enw neu gyfeiriad ffug. Os ceir collfarn ddiannod, bydd y person sy'n euog o'r tramgwydd hwn yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol, sef £1000 ar adeg ysgrifennu hwn.

### Canllawiau Statudol

4.41. Mae tystiolaeth yn hanfodol er mwyn gorfodi HCBau.

4.42. Mae gwaith gorfodi ym maes tramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau yn gofyn am ddealltwriaeth o'r ddeddfwriaeth berthnasol ynghyd â gallu i ddilyn canllawiau penodol wrth gasglu tystiolaeth. Mae gallu i ddelio ag aelodau'r cyhoedd mewn sefyllfaoedd a all fod yn anodd yn bwysig hefyd. Efallai bod gan awdurdodau beth profiad o weithredu trefniadau HCBau yn ymwneud â rhoi a gorfodi'r Hysbysiadau o dan Ddeddf

Cymdogaethau Glân a’r Amgylchedd 2005 ac, os felly, dylent fanteisio ar y profiad hwnnw.

4.43. Os oes rhyw amheuaeth pwy yw rhywun, dylai’r swyddog gorfodi ganfod a oes modd cadarnhau pwy ydyw.

4.44. Mae’r ddirwy am y tramgwydd o beidio â chydweithredu yn uchel am ei fod yn tanseilio gallu’r awdurdod deddfu i orfodi’r gyfraith.

4.45. Mae angen i swyddogion gorfodi fod wedi’u hyfforddi i ymdrin ag aelodau’r cyhoedd a all fod yn ddifrïol neu’n ymosodol.

4.46. Pa hyfforddiant bynnag y mae awdurdod yn penderfynu ei gynnig i swyddogion gorfodi, gellir ei gyflwyno’n fewnol neu gan ddarparwr allanol.

## Y defnydd o dderbyniadau am gosbau penodedig

### Cyflwyniad

4.47. Mae adran 15 o Ddeddf 2012 yn darparu ei bod yn rhaid i’r awdurdod roi sylw i ddymunoldeb defnyddio ei dderbyniadau am gosbau penodedig at ddibenion mynd i’r afael â niwsans y gwnaeth is-ddeddf er mwyn ei atal.

### Canllawiau Statudol

4.48. Mae Llywodraeth Cymru’n disgwyl y bydd yr enillion a ddaw o’r HCBau yn cael eu defnyddio i dalu am ffyrdd o fynd i’r afael â niwsansau y gwnaed is-ddeddfau i’w hatal. Nid yw hyn yn golygu ei bod yn hollol angenrheidiol i awdurdodau deddfu ddefnyddio’r derbyniadau a geir yn gosb am dorri is-ddeddf i fynd i’r afael â’r niwsans y mae’r is-ddeddf benodol honno’n ymwneud ag ef. Dyma rai enghreifftiau o weithgareddau y gellir defnyddio’r arian ar eu cyfer: ymgyrchoedd i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, arwyddion a hyfforddi staff. Mae ailgylchu dirwyon er mwyn helpu i atal niwsansau yn ffordd effeithiol o gadw’r arian hyn ar gyfer gweithgareddau na fyddai’r cyngor yn clustnodi arian ar eu cyfer fel rheol.

# Rhan 5

# Cynghorau Cymuned

## Canllawiau i Gynghorau Cymuned ynghylch Hysbysiadau Cosb Benodedig

**Darpariaethau Deddf 2012**

5.1. Mae adran 12 (13) yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi'r amodau sydd i'w bodloni gan berson cyn y caiff cyngor cymuned awdurdodi'r person yn ysgrifenedig at ddibenion rhoi HCBau o dan adran 12 o Ddeddf 2012.

**Canllawiau Statudol**

5.2. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod nad yw cynghorau cymuned, fel rheol, yn gwneud gwaith gorfodi ac felly efallai na fydd ganddynt y gweithwyr na'r arbenigedd i wneud hynny'n effeithlon ac yn effeithiol. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai'r dull gweithredu mwyaf addas yw i gynghorau cymuned gydweithio â phrif gynghorau, yr heddlu neu asiantaethau gorfodi sector preifat sydd â gwybodaeth, arbenigedd a phrofiad perthnasol er mwyn rhoi HCBau.

5.3. Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n angenrheidiol nac yn gymesur i wneud rheoliadau o dan adran 12 (13) o Ddeddf 2012. Yn hytrach, mae cynghorau cymuned sy'n ystyried gwneud is-ddeddfau fel y gallant roi HCBau yn cael eu hannog i ystyried yr opsiynau y ceir crynodeb ohonynt isod. Bydd Gweinidogion Cymru'n adolygu'r sefyllfa i weld a yw'n angenrheidiol neu'n ddymunol ai peidio i wneud rheoliadau'n rhagnodi amodau o'r fath.

5.4 Dyma rai o'r ffyrdd y gallai cynghorau cymuned weithredu:

- Cydweithio â'r prif awdurdod y mae'r cyngor cymuned yn ei ardal. Mater i'r ddau gyngor fyddai cytuno ar delerau'r cydweithio ond, fel rheol, byddai angen nodi, ymhlith pethau eraill, pa is-ddeddfau fyddai'n cael eu gorfodi trwy'r HCBau, amseru ac amlder patrolau ac, os oedd angen dyrannu costau staff, sut i wneud hynny.

- Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) o dan adran 38 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 neu bersonau a achredwyd o dan adran 41 o'r Ddeddf honno. Mae Deddf 2012 yn diwygio Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 fel y caiff PCSO neu berson a achredwyd ymarfer pŵer swyddog awdurdodedig mewn rhyw awdurdod i roi HCBau am dramgwyddau yn erbyn is-ddeddfau. Er mwyn gwneud y trefniant hwn, mae'n ofynnol cael cytundeb Prif Swyddog Heddlu'r ardal ymlaen llaw a byddai angen iddo ef neu hi sicrhau bod y pŵer perthnasol wedi'i roi i'r PCSO neu'r person achrededig.

- Cymryd contractwr preifat arbenigol gyda phrofiad neu wybodaeth perthnasol o roi Hysbysiadau Cosb Benodedig i wneud gwaith gorfodi.

Mae llawer o brif awdurdodau yn cymryd sefydliad trydydd parti priodol i wneud y gwaith gorfodi hyn ar eu rhan. Mae'r llwybr hwn ar agor i gynghorau cymuned hefyd.

- Eu staff eu hunain: Yn dibynnu ar faint a galluoedd y cyngor cymuned, gall benderfynu bod ganddo staff eisoes a all ymgymryd â gwaith gorfodi fel cyfrifoldeb ychwanegol. Mae angen cofio nad yw gwaith gorfodi sy'n cynnwys, ymhlith pethau eraill, rhoi HCBau, yn gweddu i bawb. Gall y cyngor benderfynu ei bod yn fwy priodol cyflogi staff i wneud dim ond gwaith gorfodi. Yn dibynnu faint o oriau y caiff y "swyddog gorfodi" ei gontractio i'w gwneud, gallai hyn gostio'n ddrud.

5.5 Dylai cynghorau cymuned sy'n meddwl am gontractio gydag eraill ystyried a yw ymrwymiadau caffael cyhoeddus o dan y gyfraith sy'n ymwneud â chaffael gan gyrff cyhoeddus yn berthnasol i'r broses ar gyfer dyfarnu unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau sy'n ymwneud â HCBau.

5.6 Cyfrifoldeb cynghorau cymuned yw sicrhau bod y sawl y maent yn bwriadu ei awdurdodi i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi cael hyfforddiant digonol. Byddai hyn yn berthnasol pe bai'r cyngor cymuned yn dymuno awdurdodi ei staff ei hunan i wneud gwaith gorfodi. Mae hyfforddiant ar gael o sawl ffynhonnell yn cynnwys:

- Hyfforddiant a roddir gan swyddogion gorfodi mewn awdurdodau unedol – efallai y gallent ei gynnig i weithwyr cynghorau cymuned os gofynnir iddynt.

- Cyrsiau hyfforddi a gynigir gan sefydliadau annibynnol fel Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd; Cadwch Brydain yn Daclus; Daniel Training; Ellis Ford Associates; Mallard Consultancy; a Bond Solon. Fel rheol, mae swyddogion gorfodi'r awdurdod unedol yn cadw rhestrau o'r darparwyr hyfforddiant hyn a byddant yn gallu rhoi gwybodaeth gyfredol. Mae manylion cysylltu'r sefydliadau uchod i'w gweld yn Atodiad C.

5.7 Yn ogystal, byddai angen i'r cyngor ystyried materion cyfreithiol a all godi yn cynnwys ymrwymiadau mewn perthynas â chaffael gwasanaethau, a materion eraill. Os yw awdurdod yn ystyried cyflogi sefydliad arall i gynnal y gwasanaeth hwn, efallai y bydd am ystyried hefyd a yw Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) yn berthnasol.

5.8 Os defnyddir swyddogion gorfodi o'r prif awdurdod, PCSOs neu berson a achredwyd gan Brif Swyddog Heddlu'r ardal, y prif awdurdod neu'r Prif Swyddog Heddlu, fel sy'n briodol, sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwiriadau a hyfforddiant priodol wedi'u cynnal.

5.9 O dan rai amgylchiadau, gall fod yn briodol i gyngor cymuned gydweithio â'i awdurdod lleol i wneud neu ddiwygio is-ddeddfau er

mwyn mynd i’r afael â phroblem sy’n effeithio’n benodol ar ardal y cyngor cymuned. Yn yr achos hwn, yr awdurdod lleol fyddai’n gwneud yr is-ddeddfau ac ni fyddai’r cyngor cymuned yn gyfrifol am eu gorfodi.

5.10 O ran dyrannu’r arian a gesglir o’r HCBau, os bydd awdurdodau lleol neu PCSOs yn rhoi hysbysiadau ar ran y cyngor cymuned, dylai’r cyrff o dan sylw drafod hyn a phenderfynu pwy sy’n cadw’r arian.

**ATODIAD A**

**Atodlen 1**

**Rhestrau o bwerau i wneud is-ddeddfau**

**Rhan 1 Is-ddeddfau pan na fo cadarnhad yn ofynnol**

Mae'r deddfau a restrir isod wedi'u cynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 1 o Ddeddf 2012 ar adeg ysgrifennu'r canllawiau hyn ac felly nid yw'n ofynnol i Weinidogion Cymru gadarnhau unrhyw is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan y Deddfau hyn.

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 68 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 | Rheoleiddio cerbydau hacni | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 | Rhodfeydd cyhoeddus a thiroedd hamdden | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 6 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 | Rheoli bysiau a dynnir gan geffylau | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 | Mannau agored a mynwentydd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Glan y môr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Promenadau | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 81 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau penodol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 82 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Symud mater neu hylif annymunol drwy strydoedd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu cyfleusterau cyhoeddus | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 198 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu marwdai ac ystafelloedd post-mortem | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 223 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Rheoleiddio baddonau, ymolchfeydd, pyllau nofio etc. | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 231 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Baddonau cyhoeddus | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 233 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | O ran pyllau nofio a baddonau nad ydynt o dan reolaeth awdurdod lleol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 268 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau mewn cysylltiad â defnyddio pebyll, faniau etc. | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 270 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Lletya casglwyr hopys a phersonau a gymerir ymlaen i wneud gwaith tebyg | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Ffeiriau pleser a rhinciau sglefrolio | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 76 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Cychod neu fadau pleser glan y môr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 77 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Trinwyr gwallt a barbwyr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 | Rheoleiddio ymddygiad personau mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd a defnyddio'r cyfleusterau hynny | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg 1973 | Ymgymeriadau gwresogi | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 35 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Rheoleiddio rhodfeydd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 114 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Ymddygiad personau sy'n defnyddio neu'n mynd i gyfleusterau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Aciwbigo | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Tatŵio, lliwio croen yn lledbarhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 60 o Ddeddf Bwyd 1984 | Rheoleiddio ac atal niwsansau mewn marchnadoedd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 31 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnyddio ffordd fel lle chwarae i blant | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnydd o fannau parcio | Cyngor Cymuned |
| Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 23 o Ddeddf Tai 1985 | Rheoli, defnyddio a rheoleiddio tai awdurdod lleol, y defnydd o dir a ddarperir mewn cysylltiad â thai ac mewn perthynas â thai llety awdurdod lleol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Ymhellach i fyny'r afon | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Sir Morgannwg Ganol | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli llwybrau cerdded | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 16 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 | Rheolaeth dda a llywodraeth o faeau mewndirol a harbyrau | Cyngor sir (Caerdydd) |
| Adran 16 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 | Rheolaeth dda a llywodraeth o faeau mewndirol a harbyrau | Cyngor Sir (Caerdydd) |

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy’n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 2 o’r Ddeddf hon | Rheolaeth dda a llywodraeth | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 4(1) o’r Ddeddf hon i’r graddau y mae’n gymwys i is-ddeddfau a wnaed o dan unrhyw un neu ragor o’r deddfiadau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 | Y pŵer i ddiddymu is-ddeddfau | Awdurdod Deddfu |

**Rhan 2 – Is-ddeddfau y caniateir dyroddi cosbau penodedig mewn perthynas a hwy**

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy’n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 68 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847 | Rheoleiddio cerbydau hacni | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 164 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1875 | Rhodfeydd cyhoeddus a thiroedd hamdden | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 6 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1889 | Rheoli bysiau a dynnir gan geffylau | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adrannau 12 a 15 o Ddeddf Mannau Agored 1906 | Mannau agored a mynwentydd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 82 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Glan y môr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 83 o Ddeddf Diwygio Deddfau Iechyd y Cyhoedd 1907 | Promenadau | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 18 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 | Cyfyngiadau ar gyflogi plant | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 20 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1933 | Cyfyngiadau ar gymryd plant ymlaen neu gyflogi plant wrth farchnata ar strydoedd | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 81 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau penodol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 82 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Symud mater neu hylif annymunol drwy strydoedd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy’n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 87 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu cyfleusterau cyhoeddus | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 198 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Darparu marwdai ac ystafelloedd post-mortem | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 223 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Rheoleiddio baddonau, ymolchfeydd, pyllau nofio etc. | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 231 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Baddonau cyhoeddus | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 233 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | O ran pyllau nofio a baddonau nad ydynt o dan reolaeth awdurdod lleol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 268 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Atal niwsansau mewn cysylltiad â defnyddio pebyll, faniau etc. | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 270 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1936 | Lletya casglwyr hopys a phersonau a gymerir ymlaen i wneud gwaith tebyg | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 75 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Ffeiriau pleser a rhinciau sglefrolio | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 76 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Cychod neu fadau pleser glan y môr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 77 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1961 | Trinwyr gwallt a barbwyr | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 19 o Ddeddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 | Rheoleiddio ymddygiad personau mewn llyfrgelloedd ac amgueddfeydd a defnyddio’r cyfleusterau hynny | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 35 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Rheoleiddio rhodfeydd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 114 o Ddeddf Priffyrdd 1980 | Ymddygiad personau sy’n defnyddio neu’n mynd i gyfleusterau cyhoeddus a ddarperir gan awdurdodau priffyrdd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |

| Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano | Pwnc yr is-ddeddfau | Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau |
|---|---|---|
| Adran 14 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Aciwbigo | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 15 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 | Tatŵio, lliwio croen yn lledbarhaol, tyllu cosmetig ac electrolysis | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 60 o Ddeddf Bwyd 1984 | Rheoleiddio ac atal niwsansau mewn marchnadoedd | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol<br>Cyngor Cymuned |
| Adran 31 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnyddio ffordd fel lle chwarae i blant | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 57(7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 | Defnydd o fannau parcio | Cyngor Cymuned |
| Adran 41 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 42 o Ddeddf Cyngor Sir Clwyd 1985 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 23 o Ddeddf Tai 1985 | Rheoli, defnyddio a rheoleiddio tai awdurdod lleol, y defnydd o dir a ddarperir mewn cysylltiad â thai ac mewn perthynas â thai llety awdurdod lleol | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 53 o Ddeddf Cyngor Dinas Abertawe (Morglawdd Tawe) 1986 | Ymhellach i fyny'r afon | Cyngor dinas (Abertawe) |
| Adran 31 o Ddeddf Cyngor Morgannwg Ganol 1987 | Harbwr Porthcawl | Cyngor bwrdeistref sirol (Pen-y-bont ar Ogwr) |
| Adran 14 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Canolfannau hamdden | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 36 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Plismona a rheoli llwybrau cerddwyr | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 41 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 63 o Ddeddf Gorllewin Morgannwg 1987 | Marchnad Abertawe | Cyngor sir (Abertawe) |

| **Y deddfiad y gwneir is-ddeddfau odano** | **Pwnc yr is-ddeddfau** | **Y math o awdurdod sy'n gwneud yr is-ddeddfau** |
|---|---|---|
| Adran 45 o Ddeddf Dyfed 1987 | Strwythurau dros dro | Cyngor sir a chyngor bwrdeistref sirol |
| Adran 16 o Ddeddf Morglawdd Bae Caerdydd 1993 | Rheolaeth dda a llywodraeth o faeau mewndirol a harbyrau | Cyngor Sir (Caerdydd) |
| Adran 2 o'r Ddeddf hon | Rheolaeth dda a llywodraeth ac atal a llethu niwsansau | Cyngor Sir<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol |
| Adran 4(1) o'r Ddeddf hon i'r graddau y mae'n gymwys i is-ddeddfau a wnaed o dan unrhyw un neu ragor o'r deddfiadau a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1 | Y pŵer i ddiddymu is-ddeddfau | Awdurdod Deddfu |

Sylwch: Mae gan Weinidogion Cymru bŵer i ddiwygio Rhan 1 a 2 o Atodlen 1 ac felly dylai awdurdodau sicrhau eu bod bob amser yn cyfeirio at fersiwn gyfredol o Ddeddf 2012.

**Atodiad B**

## Siart llif o weithdrefnau gwneud is-ddeddfau

| | | Gweithdrefn pan na fo cadarnhad yn ofynnol (Adran 6) | | Y Weithdrefn Gadarnhau (Adran 7 ac 8) |
|---|---|---|---|---|
| Cam 1 Ymgynghori | | Cyhoeddi(1) datganiad ysgrifenedig cychwynnol am y mater | A.7(3) | Cyhoeddi(1) datganiad ysgrifenedig cychwynnol am y mater |
| | A. 6(2) | Ymgynghori'n lleol | - | Ymgynghori'n lleol |
| Cam 2 Y Penderfyniad | A. 6(3) | Penderfynu a ydynt am symud ymlaen â'r is-ddeddf ai peidio | A.7(4)- | Penderfynu a ydynt am symud ymlaen â'r is-ddeddf ai peidio |
| | A. 6(4) | Cyhoeddi(1) ail ddatganiad ysgrifenedig:<br>• Crynodeb o'r ymgynghoriad<br>• Penderfyniad a rhesymau | A.7(5) | Cyhoeddi(1) ail ddatganiad ysgrifenedig:<br>• Crynodeb o'r ymgynghoriad<br>Penderfyniad a rhesymau |
| Cam B Gwneud yr Is-ddeddf | A.6(5) | O leiaf 6 wythnos cyn gwneud is-ddeddf<br>• Cyhoeddi(2) hysbysiad a'r is-ddeddf<br>• Adneuo i gael ei harchwilio | | |
| | A. 6(8) | Yr awdurdod yn gwneud is-ddeddf (cyn pen 6 mis) | A. 7(7) & 7(8) | O leiaf 6 wythnos cyn cyflwyno'r is-ddeddf i'w chadarnhau:<br>• Cyhoeddi(2) hysbysiad a'r is-ddeddf<br>• Adneuo i gael ei harchwilio |
| Cam 4 Cadarnhau | | | A. 7(10) | Cyflwyno i Weinidogion Cymru ar gyfer cadarnhad |
| Cam 5 Cychwyn | | | A. 8(4) | Cychwyn ar ddyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru neu 1 mis o'r dyddiad y cadarnhawyd yr is-ddeddf |

Nodiadau:
1. Cyhoeddi ar wefan yr awdurdod.
2. Cyhoeddi hysbysiad mewn papur newydd lleol ac ar y wefan; yr is-ddeddf ar y wefan

**Atodiad C**

**Darparwyr Hyfforddiant Hysbysiadau Cosb Benodedig**

Mae'r sefydliadau a ganlyn yn cynnig cyrsiau hyfforddi mewn Hysbysiadau Cosb Benodedig.
Sylwch: Darparwyr hyfforddiant annibynnol yw'r rhain ac nid ydynt wedi'u cymeradwyo na'u hachredu gan Lywodraeth Cymru.

Keep Britain Tidy
Elizabeth House
The Pier
Wigan
WN3 4EX

Ffôn: 01942 612655
Ffacs: 01942 824778
E-bost: training@keepbritaintidy.org.

Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru
Cwrt Glanllyn
Parc Llantarnam
Cwmbrân
NP44 3GA

Ffôn: 01633 865533
Ffacs: 01633 485193
E-bost: wales@cieh.org

Daniel Training Services Ltd.
5 Springhill Drive
Crofton
Wakefield
WF4 1EX

Ffôn: 01924 285446 neu 07931 732266
Ffacs: 01924 862737
E-bost: danieltraining@hotmail.co.uk

Ellis Ford Associates,
Magdale House,
Netherton,
Huddersfield
HD4 7DL.

Ffôn: 01484 665568
e-bost: enquiries@ellisford.com

**Bond Solon Training Ltd,**
**6-14 Underwood Street,**
**Llundain/London**
**N1 7JQ**

Ffôn:  0207 549 2549
Ffacs:  0207 549 2505
E-bost: info@bondsolon.com

Mallard Consultancy
David Armstrong
http://www.mallard-consultancy.co.uk